

Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd: templed ar gyfer astudiaethau achos

Sefydliad:	Prifysgol Aberystwyth Y Gyfraith a Throsedddeg, Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
Thema Cenhadaeth Ddinesig (dewiswch o'r gwymplen) :	Menter gymdeithasol ac arloesi
Gweledigaeth ar gyfer Elfennau Ymchwil ac Arloesi (dewiswch bob un sy'n berthnasol):	<input checked="" type="checkbox"/> Rhagoriaeth <input checked="" type="checkbox"/> Lle <input checked="" type="checkbox"/> Arloesi <input checked="" type="checkbox"/> Cydweithredu
Teitl yr astudiaeth achos / prosiect / menter:	Trawsnewid yr Ymateb i Gamdriniaeth Ddomestig yn Hwyrach mewn Bywyd
Disgrifiad cryno: <p>Mae Menter Dewis Choice (2015-hyd heddiw) ac ymchwil flaenorol a wnaed gan Wydall ac eraill wedi amlygu sut yr amddifadwyd pobl hŷn rhag cael cyfleoedd i geisio cael cyfiawnder, o'u cymharu â phobl iau, mewn achosion o gam-drin domestig a niwed anfwriadol. Mae blaenoriaethau'r Fenter yn cynnwys sicrhau bod pobl yn cael dewis ar sail gwybodaeth gadarn, gan integreiddio darpariaeth lles a'r cyfle i ddewis o blith amrywiaeth o opsiynau cyfiawnder (troseddol, sifil ac adferol).</p> <p>Ariennir Dewis Choice gan y Gronfa Gymunedol Genedlaethol a 'Comic Relief'. Dyma'r Fenter gyntaf yn y byd sydd wedi'i llunio a'i gweithredu drwy gyd-gynhyrchu gan bobl hŷn (sef 60 oed a hŷn) ac ymarferwyr. Mae'r Fenter yn cyfuno ymchwil ragolygol, hydredol â gwasanaeth pwrpasol, unswydd ac yn integreiddio'r ymchwil mewn gweithdrefnau ymarferol drwy ddarparu hyfforddiant a chyngor i sefydliadau drwy Brydain ar gyfer pobl 60 oed a hŷn sydd wedi cael profiad o gamdriniaeth ar yr aelwyd.</p> <p>Drwy weithio ar draws cenedlaethau, mae'r Fenter wedi cydweithredu a rhannu gwybodaeth â gwahanol garfanau, gan gynnwys myfyrwyr, pobl hŷn, grwpiau LHDTh+, timoedd diogelu ar draws Prydain, Heddluoedd, academyddion mewn cyrff anllywodraethol, arweinwyr polisi a Llywodraeth Cymru.</p>	

Effaith y prosiect / menter:

Mae'r ymchwil hydredol wedi dylanwadu ar sut y cafodd hyfforddiant ei gynllunio a'i ddarparu ledled gwledydd Prydain. Mae'r hyfforddiant hwn a arweinir gan waith ymchwil wedi'i rannau â mwy na 6,000 o ymarferwyr drwy Brydain drwy ddigwyddiadau hyfforddi a chyfnewid gwybodaeth. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys dwy ffilm fer LHDTh+, gweminarau, fforymau trafod ar-lein a chyhoeddiad sy'n cynnig Canllawiau i Ymarferwyr. Mae'r Canllawiau i Ymarferwyr yn rhoi dealltwriaeth newydd ar les, cynllunio diogelwch, pecynnau adnoddau, a chanllawiau cyfreithiol; mae 2,000 copi wedi'u dosbarthu i amryw sefydliadau.

Mewn ymateb i sefyllfa COVID-19, datblygodd yr ymchwilwyr hyfforddiant cryno dwyieithog a fabwysiadwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda a Chyngor Sir Ceredigion yn rhan o'u hyfforddiant mewnol ar gamdriniaeth ar yr aelwyd. Fe'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn, ac fe'i rhannwyd â Sefydliad Iechyd y Byd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Fenter yn pwysleisio meithrin cyswllt â'r gymuned; mae wedi ymgynghori â 1700 o bobl hŷn ac wedi hyfforddi mwy na 380 o wirfoddolwyr.

Mae'r ymchwil, sy'n dal i fynd yn ei blaen, wedi rhoi dealltwriaeth newydd ar arferion gwahaniaethol, er enghraifft, ymatebion i: orosywyr-ddioddefwyr LHDTh+ hŷn; dioddefwyr gwrywaidd; cam-drin teuluol; dementia a chamdriniaeth ar yr aelwyd.

Mae adborth gan gleientiaid, timoedd diogelu, heddluoedd ac arweinwyr polisi yn dangos bod Dewis Choice wedi lleihau'r perygl o niwed a cham-drin, a hefyd wedi gwella ansawdd bywyd 156 o bobl hŷn yng Nghymru.

Gweithgarwch yn y dyfodol:

Profwyd bod meysydd sylweddol o ymchwil ac effaith, gan gynnwys yr hyfforddiant, yn gynaliadwy gan fod sefydliadau wedi'u hymgorffori yn eu gwasanaethau a'u harferion eu hun. Pe ceid cyllid i'r dyfodol, byddai Dewis Choice yn gallu rhannu hyfforddiant a arweinir gan ymchwil er mwyn rhannu ymarfer da yn rhyngwladol. Drwy ymgorffori canlyniadau ymchwil y dyfodol yn yr ymarfer presennol, fe fydd goroeswyr-ddioddefwyr hŷn yn cael ymateb gwell byth pan chwiliant am gymorth.

Ers y cyllid cychwynnol ar gyfer Dewis Choice, mae'r Prif Ymchwilydd, Sarah Wydall wedi cael £813,096 am bum astudiaeth ymchwil bellach: sef astudiaeth a gynhelir ledled Prydain o'r enw 'Trawsnewid yr Ymateb i Gamdriniaeth Ddomestig yn Hwyrach mewn Bywyd'; Ymchwiliad i Gydfodolaeth Camdriniaeth Ddomestig a Dementia; Creu Mannau Mwy Diogel a Meithrin Cysylltedd Cymdeithasol yn ystod COVID-19; Datblygu Gwarchodaeth Gyfreithiol a Mewnblannu Cymdeithasol; a Thrawsnewid yr Ymateb i Drais a Chamdriniaeth ar Aelwydydd lle mae'r Benywod yn Ddibynnol mewn Cymdogaethau Indiaidd Malaisaidd. Gyda'i gilydd, bydd y canlyniadau ymchwil hyn yn bwydo i unrhyw hyfforddiant ychwanegol sy'n gysylltiedig â Menter Dewis Choice.

Dyfyniad(au) gan bartner prosiect allanol, er enghraifft:

'Mae'r effaith y mae Dewis Choice wedi'i chael ar bobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin a'u teuluoedd yn aruthrol. O'r hyn rwyf wedi'i weld mae'r gwaith a'r ymchwil y mae'r prosiect yn eu gwneud wedi cael - ac fe fydd yn parhau i gael - effaith ddofn ac arloesol ar ein dealltwriaeth a'n hymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn, yn ogystal ag ar sut mae'r ymatebion a'r cymorth sydd ar gael i'r bobl hŷn a'u teuluoedd yn ein cymunedau yn cael eu datblygu a'u gwella.'

Natalie Hancock

Arweinydd Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol

**Cysylltiadau:
(gwefan; enw cyswllt; cyfeiriad e-bost; rhif ffôn)**

dewischoice.org.uk
Sarah Wydall
sww@aber.ac.uk
07833777549

**Sut wnaeth y gweithgarwch helpu i gefnogi
nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol (dewiswch bob un sy'n berthnasol):**

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r prosiect yn cyd-fynd yn gryf â'r Ddeddf Llesiant o safbwynt ei gyfraniad tuag at y nodau uchod ac o ran ei gefnogaeth i'r materion y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ymdrin â nhw o safbwynt datblygu cynaliadwy fel y'i disgrifir yn y Ddeddf - er enghraifft, atal problemau rhag digwydd neu waethgu, integreiddio ag amcanion lles cyrff cyhoeddus eraill, cydweithredu er mwyn cyflawni amcanion lles, sicrhau bod y rhai sydd â diddordeb yn yr amcanion yn gallu cyfranogi, a diogelu lles yn yr hirdymor gan, ar yr un pryd, fodloni'r anghenion tymor byr hefyd. Mae'r nodau uchod yn cael eu bodloni drwy:

Cymru lewyrchus - mae'r prosiect yn ymdrin â chamdriniaeth ar yr aelwyd, sy'n niweidio unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae camdriniaeth yn tansilio gallu rhywun i gyfrannu tuag at y gymdeithas, ac yn gallu rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau meddygol, cymdeithasol ac eraill, a thrwy hynny effeithio'n negyddol ar les cymdeithasol ac economaidd.

Cymru gydnerth - Gan mai adnodd ar-lein yw hwn, nid yw'r pecyn hyfforddi'n ychwanegu at y carbon a ddefnyddir. Mae hefyd yn cefnogi cadernid cymdeithasol ac economaidd unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Cymru iachach - bydd yr hyfforddiant a ddarperir gan y prosiect yn cynorthwyo ymarferwyr i ganfod camdriniaeth ac i ymdrin â hi, ac felly mae'n cefnogi'r nod hwn, sef hyrwyddo cymdeithas lle y sicrhau y lles gorau posib i bobl, o safbwynt corfforol a meddyliol fel ei gilydd, a lle y deallir y dewisiadau a'r ymddygiadau a fydd o fudd i iechyd y dyfodol. Mae ymchwil Dewis Choice wedi hyrwyddo cyfleoedd i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth gadarn, gan arwain at ganlyniadau gwell i bobl hŷn o ran sut maent yn iacháu ac o ran ansawdd eu bywyd. Mae'r Fenter yn darparu cymorth a chefnogaeth i'r tymor hir a'r tymor byr fel ei gilydd, i ymarferwyr, goroeswyr-ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Cymru sy'n fwy cyfartal - bydd y prosiect yn golygu y bydd mwy o bobl yn gallu gwireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u hoedran, eu cefndir neu eu hamgylchiadau. Mae Dewis Choice a'r ymchwil sy'n sylfaen iddo, a wnaed gan Wydall ac eraill, i'r goroeswyr hŷn sy'n cael eu cam-drin (2012-2020) yn dangos bod diffyg darpariaeth gwasanaethau a hyfforddiant. Mae ymchwil y Fenter yn amlygu amrywiaeth o arferion gwahaniaethol sy'n tansilio hawliau dynol pobl hŷn. Mae'r ymdriniaeth sy'n cyfuno cyfiawnder a lles yn helpu i ddarparu hawliau cyfartal i iawnderau a gwasanaethau, ni waeth beth fo oedran, rhywedd, dosbarth, rhywioldeb neu anabledd yr unigolyn.

Cymru o gymunedau cydlynus - mae'r hyfforddiant a ddarperir yn helpu amrywiaeth o ymarferwyr i sicrhau bod cymunedau, a'r unigolion ynddynt, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda ag eraill. Gall camdriniaeth ffynnu lle bo pobl yn ynysig, ac mae'n rhaid sicrhau bod pob dinesydd yn gallu cael gafael ar gymorth, yn enwedig y rhai sy'n hŷn ac yn fwy agored i niwed, os ydyn nhw, neu rywun y maent yn ei adnabod, mewn sefyllfa lle y gallent fod yn agored i gael eu cam-drin.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - drwy fynd i'r afael ar gamdriniaeth ar bobl hŷn, yn y ddwy iaith, gwneir cyfraniad tuag at godi eu hyder, a galluogi dioddefwyr camdriniaeth i feithrin cyswllt o'r newydd â'r celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Mae diwylliant bywiog yn mynnu bod materion sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth yn cael eu datrys. Mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig, gall camdriniaeth ddigwydd heb gael ei chydabod na'i chanfod, sy'n arwain at unigedd a dioddefaint.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - bydd y prosiect yn cyfrannu at les ym mhob cwr o Gymru ac mae ganddo'r cyfle i wneud cyfraniad tuag at wella lles drwy'r byd os yw'n cael ei fabwysiadu gan bartneriaid rhyngwladol.